

Atodiad 3 - Deddfwriaeth, canllawiau a pholisïau perthnasol

Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

1. Mae [Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant \(Cymru\) 2014](#) ("y Ddeddf") yn datgan bod llesiant, mewn perthynas â pherson, yn ymwneud ag unrhyw un o'r canlynol:

- a) Iechyd corfforol a meddyliol a llesiant emosiynol
- b) Diogelu rhag cam-drin ac esgeuluso
- c) Addysg, hyfforddiant a hamdden
- d) Perthnasoedd domestig, teuluol a phersonol
- e) Cyfraniad a wneir at gymdeithas
- f) Sicrhau hawliau a hawlogaethau
- g) Llesiant cymdeithasol ac economaidd
- h) Addasrwydd llety preswyl.

Mewn perthynas â phlentyn (dan 18), mae llesiant hefyd yn cynnwys:

- a) Datblygiad corfforol, deallusol, emosiynol, cymdeithasol ac ymddygiadol
- b) "lles" fel y dehonglir y gair hwnnw at ddibenion Deddf Plant 1989.

Mewn perthynas ag oedolyn (dros 18), mae llesiant hefyd yn cynnwys:

- a) Rheolaeth dros fywyd bob dydd
- b) Cymryd rhan mewn gwaith.

2. Mae'r ddyletswydd llesiant yn golygu bod yn rhaid i berson sy'n arfer swyddogaethau o dan y Ddeddf geisio hyrwyddo llesiant pobl sydd angen gofal a chymorth a gofalcwyr sydd angen cymorth.

3. Mae Adran 17 o'r Ddeddf yn datgan bod yn rhaid i awdurdod lleol sicrhau bod gwasanaeth yn cael ei ddarparu ar gyfer rhoi gwybodaeth i bobl (gan gynnwys gwybodaeth ariannol, fel gwybodaeth am daliadau uniongyrchol, ond heb fod yn gyfyngedig i hynny) a chynghor sy'n ymwneud â gofal a chymorth a help i gael gafael ar ofal a chymorth. Rhaid i'r awdurdod lleol sicrhau bod y gwasanaeth yn ddigonol i alluogi person i wneud cynlluniau i

ddiwallu anghenion am ofal a chymorth a allai godi a rhoi gwybodaeth, cyngor a chymorth i berson mewn modd sy'n hygyrch i'r person hwnnw.

4. Mae Deddf 2014 yn diffinio gofalwr fel rhywun sy'n darparu, neu sy'n bwriadu darparu, gofal di-dâl i oedolyn neu blentyn anabl. Gall y sawl sy'n derbyn gofal fod yn aelod o'r teulu neu'n ffrind sydd, oherwydd salwch, anabledd, problem iechyd meddwl neu gaethiwed i alcohol neu gyffuriau, yn methu ymdopi heb gymorth y gofalwr.

5. Mae Rhan 3 o'r Ddeddf yn rhoi dyletswydd ar awdurdodau lleol, lle mae'n ymddangos y gallai fod gan ofalwr anghenion cymorth, i asesu a oes gan y gofalwr anghenion cymorth (neu'n debygol o gael yn y dyfodol), ac os oes gan y gofalwr anghenion o'r fath, beth yw'r anghenion hynny (neu beth maen nhw'n debygol o fod yn y dyfodol). Mae'r ddyletswydd hon yn berthnasol i ofalwr sy'n darparu neu'n bwriadu darparu gofal ar gyfer:

- a) Oedolyn neu blentyn anabl sy'n preswyllo yn ardal yr awdurdod, neu
- b) Unrhyw oedolyn neu blentyn anabl arall sydd o fewn ardal yr awdurdod.

6. Mae Adran 24(3) o'r Ddeddf yn amlinellu bod y ddyletswydd i asesu anghenion am gymorth yn berthnasol ni waeth beth yw barn yr awdurdod am lefel anghenion y gofalwr am gymorth, neu lefel adnoddau ariannol y gofalwr, neu'r person y mae'r gofalwr yn gofalu amdano, neu'n bwriadu gofalu amdano.

7. Mae Adran 24(4) yn egluro bod yn rhaid i'r awdurdod lleol, wrth gynnal asesiad o anghenion gofalwr, wneud y canlynol:

- a) Asesu i ba raddau y mae'r gofalwr yn gallu, ac y bydd yn parhau i allu, darparu gofal i'r person y mae'r gofalwr yn darparu, neu'n bwriadu darparu gofal iddo.
- b) Asesu i ba raddau y mae'r gofalwr yn fodlon gwneud hynny, ac y bydd yn parhau i fod yn fodlon gwneud hynny.
- c) Yn achos oedolyn sy'n ofalwr, ceisio nodi'r canlyniadau y mae'r gofalwr yn dymuno eu cyflawni.
- d) Yn achos Gofalwr Ifanc, ceisio nodi'r canlyniadau y mae'r:
 - i. Gofalwr Ifanc yn dymuno eu cyflawni, i'r graddau y bo'n briodol i oedran a dealltwriaeth y Gofalwr Ifanc,

- ii. Pobl sydd â chyfrifoldeb rhiant dros y Gofalwr Ifanc yn awyddus i'w cyflawni o ran y Gofalwr Ifanc, i'r graddau y bo'n briodol gan ystyried bod angen hyrwyddo llesiant y Gofalwr Ifanc, a
 - iii. Pobl a nodir yn benodol mewn rheoliadau (os oes rhai) yn awyddus i'w cyflawni mewn perthynas â'r Gofalwr Ifanc.
-
- e) Asesu a allai darparu cymorth, gwasanaethau ataliol, neu wybodaeth, cyngor a chymorth gyfrannu at gyflawni'r canlyniadau hynny, neu fel arall ddiwallu anghenion a nodwyd yn yr asesiad, ac os felly, i ba raddau, ac
 - f) Asesu a allai materion eraill gyfrannu at gyflawni'r canlyniadau hynny neu fel arall ddiwallu'r anghenion hynny, ac os felly, i ba raddau.
8. O dan Adran 24(5) o'r Ddeddf, wrth gynnal asesiad o anghenion, rhaid i awdurdodau lleol roi sylw i'r canlynol:
- a) A yw'r gofalwr yn gweithio neu'n awyddus i weithio,
 - b) A yw'r gofalwr yn cymryd rhan neu'n awyddus i gymryd rhan mewn addysg, hyfforddiant neu unrhyw weithgaredd hamdden, ac
 - c) Yn achos gofalwr sy'n blentyn, ei anghenion datblygiadol ac a yw'n briodol i'r plentyn ddarparu'r gofal (neu unrhyw ofal) yng ngoleuni'r anghenion hynny.
9. Mae Adran 24(6) yn datgan bod yn rhaid i awdurdodau lleol gynnwys y canlynol wrth gynnal asesiad o anghenion:
- a) Y gofalwr, a
 - b) Lle bo hynny'n ymarferol, y person y mae'r gofalwr yn darparu neu'n bwriadu darparu gofal iddo.
10. Mae Adran 24 (7) yn nodi bod natur yr asesiad o anghenion sy'n ofynnol yn un y mae'r awdurdod lleol yn ei ystyried yn gymesur yn yr amgylchiadau, yn ddarostyngedig i unrhyw ofyniad mewn rheoliadau.
11. Mae Adran 25 o'r Ddeddf yn datgan, os bydd oedolyn sy'n ofalwr yn gwrthod asesiad o anghenion, nad yw'r ddyletswydd i asesu anghenion y gofalwr yn berthnasol. Fodd bynnag, ni chyflawnir y ddyletswydd honno os:

- a) Nad oes gan y gofalwr alluedd i benderfynu a yw am wrthod asesiad o anghenion ond mae person awdurdodedig¹ i wneud y penderfyniad ar ran y gofalwr.
- b) Nad oes gan y gofalwr alluedd i benderfynu a yw am wrthod asesiad o anghenion ac nid oes person awdurdodedig i wneud y penderfyniad ar ran y gofalwr a byddai cael asesiad er budd y gofalwr.

12. Mae Adran 25(3) yn amlinellu, pan fo gofalwr wedi gwrthod asesiad o anghenion, fod y ddyletswydd yn berthnasol eto os yw'n gofyn wedyn am asesiad neu os yw'r awdurdod lleol yn ystyried bod anghenion neu amgylchiadau'r gofalwr wedi newid.

13. Mae Adran 26 o'r Ddeddf yn datgan os yw gofalwr 16 neu 17 oed (neu, pan fo'n berthnasol, person awdurdodedig) yn gwrthod asesiad o anghenion, nid yw'r ddyletswydd i asesu anghenion y gofalwr yn berthnasol. Nid yw'r ddyletswydd i asesu'r gofalwr yn berthnasol ychwaith os yw person sydd â chyfrifoldeb rhiant dros ofalwr 16 neu 17 oed yn gwrthod asesiad o anghenion ar gyfer y gofalwr, mewn amgylchiadau lle mae'r awdurdod lleol yn fodlon nad oes gan y gofalwr alluedd i benderfynu a yw am wrthod asesiad o anghenion ac nad oes unrhyw berson awdurdodedig i wneud y penderfyniad ar ran y gofalwr. Fodd bynnag, ni chyflawnir y ddyletswydd honno os yw'r awdurdod lleol yn fodlon:

- a) Nad oes gan y gofalwr alluedd i benderfynu a yw am wrthod cael yr asesiad.
- b) Pan fydd person sydd â chyfrifoldeb rhiant am ofalu yn gwrthod asesiad, nad oes gan y person hwnnw y galluedd i benderfynu a ddylid gwrthod yr asesiad ai peidio.
- c) Pan fydd person sydd â chyfrifoldeb rhiant dros y gofalwr yn gwrthod asesiad, na fyddai peidio â chael yr asesiad er budd y gofalwr.

14. Mae Adran 26(4) yn amlinellu, pan fo gofalwr wedi gwrthod asesiad o anghenion, y bydd y ddyletswydd yn berthnasol eto os bydd y gofalwr (neu berson awdurdodedig) yn gofyn wedyn am asesiad neu os bydd person sydd â chyfrifoldeb rhiant dros y gofalwr yn gofyn wedyn am asesiad, neu os yw'r awdurdod lleol o'r farn bod anghenion neu amgylchiadau'r gofalwr, neu anghenion neu amgylchiadau person sydd â chyfrifoldeb rhiant dros y gofalwr, wedi newid.

¹ Person sydd wedi'i awdurdodi o dan Ddeddf Galluedd Meddyliol 2005 i benderfynu a ddylid gwrthod, neu ofyn am, asesiad o anghenion ar ran y gofalwr.

15. Mae Adran 27 yn ymwneud â gwrthod asesiad o anghenion ar gyfer gofalwr o dan 16 oed. Os yw gofalwr o dan 16 oed yn gwrthod asesiad o anghenion a bod yr awdurdod lleol yn fodlon bod gan y gofalwr ddealltwriaeth ddigonol i wneud penderfyniad deallus ynghylch gwrthod yr asesiad, nid yw'r ddyletswydd i asesu anghenion y gofalwr yn berthnasol. Yn yr un modd, os yw person sydd â chyfrifoldeb rhiant dros ofalwr o dan 16 oed yn gwrthod asesiad o anghenion ar gyfer y gofalwr, nid yw'r ddyletswydd i asesu anghenion y gofalwr yn berthnasol. Fodd bynnag, nid yw gwrthod yn yr amgylchiadau hyn yn golygu nad oes ddyletswydd ar yr awdurdod lleol i asesu anghenion y gofalwr os yw'r awdurdod lleol yn fodlon pan fydd person sydd â chyfrifoldeb rhiant yn gwrthod:

- Nad oes gan y person alluedd i benderfynu a yw am wrthod yr asesiad.
- Bod gan y gofalwr ddigon o ddealltwriaeth i wneud penderfyniad deallus ynghylch gwrthod yr asesiad ac nad yw'n cytuno â'r penderfyniad i wrthod a wnaed gan y person sydd â chyfrifoldeb rhiant dros y gofalwr.
- Y byddai peidio â chael yr asesiad yn anghyson â llesiant y gofalwr.

Bydd y ddyletswydd yn berthnasol eto os bydd y gofalwr, neu berson awdurdodedig, yn gofyn wedyn am asesiad neu os bydd yr awdurdod lleol o'r farn bod anghenion neu amgylchiadau'r gofalwr neu anghenion neu amgylchiadau'r person sydd â chyfrifoldeb rhiant dros y gofalwr, wedi newid.

16. Mae Adran 28 yn datgan y caiff yr awdurdod lleol gyfuno asesiad o anghenion person sy'n derbyn gofal ac asesiad o anghenion y gofalwr. Fodd bynnag, efallai na fydd yr awdurdod lleol yn cyfuno asesiad o anghenion ar gyfer:

- Oedolyn sy'n derbyn gofal gydag asesiad o anghenion ar gyfer person arall oni bai fod yr oedolyn yn rhoi cydsyniad dilys neu fod y gofyniad am gydsyniad dilys wedi'i hepgor.
- Plentyn 16 neu 17 oed gydag asesiad o anghenion ar gyfer person arall, oni bai fod y plentyn yn rhoi caniatâd dilys, fod person sydd â chyfrifoldeb rhiant dros y plentyn yn rhoi caniatâd dilys mewn amgylchiadau lle nad oes gan y plentyn alluedd i benderfynu a yw'n cydsynio i gyfuno'r asesiadau o anghenion ac nad oes person awdurdodedig i wneud penderfyniad ar ran y plentyn, neu lle mae'r gofyniad am gydsyniad dilys wedi'i hepgor.

- Plentyn o dan 16 oed gydag asesiad o anghenion ar gyfer person arall, oni bai fod y plentyn neu berson sydd â chyfrifoldeb rhiant dros y plentyn yn rhoi caniatâd dilys, neu lle mae'r gofyniad am gydsyniad dilys wedi'i hepgor.

Mae nifer o eithriadau i gydsyniad fod yn ddilys ac i'r awdurdod lleol hepgor y gofyniad am gydsyniad dilys.

17. Mae Adran 29 yn datgan os oes gan berson, y mae'n ymddangos bod angen cymorth arno fel gofalwr, anghenion am ofal a chymorth hefyd yn ei rinwedd ei hun, gall awdurdod lleol gyfuno asesiad o anghenion ar gyfer y person hwnnw fel gofalwr ag asesiad o anghenion ar gyfer y person hwnnw am ofal a chymorth yn ei rinwedd ei hun.

18. Mae Rhan 4 y Ddeddf yn ymdrin â phenderfynu beth i'w wneud yn dilyn asesiad o anghenion. Mae Adran 32(1) yn datgan, pan fo awdurdod lleol wedi ei fodloni, ar sail asesiad o anghenion, fod gan ofalwr anghenion am gymorth, mae'n rhaid i'r awdurdod wneud y canlynol:

- a) Penderfynu a yw unrhyw un o'r anghenion yn bodloni'r meini prawf cymhwysedd
- b) Os nad yw'r anghenion yn bodloni'r meini prawf cymhwysedd, penderfynu a oes angen diwallu'r anghenion, er mwyn diogelu'r person rhag:
 - i. Cael ei gam-drin neu ei esgeuluso, neu'r risg o gael ei gam-drin neu ei esgeuluso (os yw'r person yn oedolyn)
 - ii. Cael ei gam-drin neu ei esgeuluso, neu'r risg o gael ei gam-drin neu ei esgeuluso, neu niwed arall, neu'r risg o niwed o'r fath (os yw'r person yn blentyn)
- c) Penderfynu a yw'r angen yn galw am arfer unrhyw swyddogaeth sydd ganddo o dan y Ddeddf neu Rannau 4 neu 5 o [Ddeddf Plant 1989](#), i'r graddau y mae'r swyddogaeth yn berthnasol i'r person hwnnw
- d) Ystyried a fyddai'r person yn elwa o ddarparu unrhyw beth y gellid ei ddarparu yn rhinwedd gwasanaethau ataliol neu wybodaeth, cyngor a chymorth neu unrhyw beth arall a allai fod ar gael yn y gymuned.

19. Mae Adran 32(2) yn datgan os yw awdurdod lleol yn penderfynu bod yn rhaid i unrhyw anghenion gael eu diwallu, neu eu bod yn mynd i gael eu diwallu, rhaid i'r

awdurdod ystyried beth gellid ei wneud i ddiwallu'r anghenion hynny ac mae'n rhaid iddo ystyried a ddylid codi tâl am y pethau hynny.

20. Mae Adran 34(1) yn rhoi enghreifftiau o'r ffyrdd y gall awdurdod lleol ddiwallu anghenion:

- a) Drwy drefnu i berson ar wahân i'r awdurdod ddarparu rhywbeth
- b) Drwy ddarparu rhywbeth ei hun
- c) Drwy ddarparu rhywbeth, neu drwy drefnu i ryweth gael ei ddarparu, i berson ar wahân i'r gofalwr sydd ag anghenion am gymorth.

21. Mae Adran 34(2) yn rhoi enghreifftiau o'r hyn y gellir ei ddarparu neu ei drefnu i ddiwallu anghenion pobl y mae angen gofal a chymorth arnynt neu anghenion gofalwyr:

- a) Llety mewn cartref gofalwyr, cartref plant neu adeilad o fath arall
- b) Gofalwyr a chymorth gartref neu yn y gymuned
- c) Gwasanaethau, nwyddau a chyfleusterau
- d) Gwybodaeth a chyngor
- e) Cwnsela ac eiriolaeth
- f) Gwaith cymdeithasol
- g) Taliadau (gan gynnwys Taliadau Uniongyrchol)
- h) Cymhorthion ac addasiadau
- i) Therapi galwedigaethol.

22. Mae Adrannau 40 a 42 yn rhoi dyletswydd ar awdurdod lleol i ddiwallu anghenion cymorth gofalwr sy'n oedolyn neu'n blentyn os yw'n fodlon bod 3 amod, ac unrhyw amodau a bennir mewn rheoliadau, yn cael eu bodloni. Dyma'r amodau:

- Amod 1 – mae'r person y mae'r gofalwr yn gofalu amdano yn oedolyn sy'n preswyllo fel arfer yn ardal yr awdurdod lleol neu nid oes ganddo breswylfa sefydlog ac o fewn ardal yr awdurdod, neu blentyn anabl sydd o fewn ardal yr awdurdod.
- Amod 2 – mae'r gofalwr yn bodloni'r meini prawf cymhwysedd.
- Amod 3 – yn ymwneud ag asesiad ariannol (lle bo'n berthnasol pan fo'r gofalwr yn blentyn).

23. Mae Adran 44(2) yn datgan y gall diwallu rhai neu'r cyfan o anghenion gofalwr am gymorth gynnwys darparu gofal a chymorth i'r person y mae'r gofalwr yn gofalu amdano, hyd yn oed pan na fyddai dyletswydd i ddiwallu anghenion y person am y gofal a'r cymorth hwnnw o dan Adrannau 35 neu 37 o'r Ddeddf. Mae Adran 44(3) yn datgan, pan fo Adrannau 40 neu 42 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdod lleol ddiwallu rhai, neu holl, anghenion gofalwr am gymorth, ond nad yw'n ymarferol iddo wneud hynny drwy ddarparu gofal a chymorth i'r person y mae'r gofalwr yn gofalu amdano, mae'n rhaid iddo, cyn belled ag y bo'n ymarferol gwneud hynny, nodi rhyw ffordd arall o wneud hynny.

24. Mae Adran 45(1) yn datgan y caiff awdurdod lleol ddiwallu anghenion gofalwr am gymorth os yw'r person y mae'r gofalwr yn gofalu amdano o fewn ardal yr awdurdod lleol lle mae'n preswyl fel arfer yn ardal yr awdurdod, ond y tu allan i'w ardal. Mae Adran 45(2) yn datgan bod gan awdurdod lleol y pŵer i ddiwallu anghenion o dan yr adran hon pa un a yw wedi cwblhau asesiad o anghenion yn unol â Rhan 3 neu asesiad ariannol yn unol â Rhan 5 ai peidio.

Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 - Rhan 3 o'r Cod Ymarfer (asesu anghenion unigolion)

25. Cyhoeddwyd Rhan 3 o'r Cod Ymarfer (asesu anghenion unigolion) ("Rhan 3 o'r Cod") o dan Adran 145 o'r Ddeddf. Rhaid i awdurdodau lleol weithredu'n unol â'r gofynion sydd wedi'u cynnwys yn Rhan 3 o'r Cod wrth arfer eu swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol. Mae Rhan 3 o'r Cod yn nodi proses ar gyfer asesu anghenion unigolyn am ofal a chymorth, neu gymorth yn achos gofalwr, proses asesu a fydd yn berthnasol i bob person (plant, oedolion a gofalwyr), a phroses adolygu ac ailasesu a fydd yn berthnasol i asesiadau.

26. Mae'n datgan bod yn rhaid i awdurdod lleol gynnig asesiad i unrhyw ofalwr os yw'n ymddangos i'r awdurdod hwnnw y gallai fod gan y gofalwr anghenion am gymorth. Mae'r ddyletswydd yn berthnasol os yw'n ymddangos i'r awdurdod lleol y gallai fod gan ofalwr anghenion am gymorth. Mae'n rhaid i'r asesiad gynnwys asesiad o'r graddau y mae'r gofalwr yn gallu ac yn barod i ddarparu'r gofal ac i barhau i ddarparu'r gofal, y canlyniadau y mae'r gofalwr yn dymuno eu cyflawni o ran ef ei hun ac, os mai plentyn yw'r gofalwr, y canlyniadau y gallai'r person(au) sydd â chyfrifoldeb rhiant dros y plentyn hwnnw fod yn awyddus i'w cyflawni ar ei gyfer ac i ba raddau y gallai cymorth, gwasanaethau ataliol, neu ddarparu gwybodaeth, cyngor neu gymorth, helpu i gyflawni'r canlyniadau a nodwyd.

Rhaid i'r asesiad hefyd ystyried a yw'r gofalwr yn gweithio, neu'n dymuno gweithio, ac a yw'n cymryd rhan neu'n dymuno cymryd rhan mewn gweithgareddau addysg, hyfforddiant neu hamdden. Os yw'r gofalwr yn blentyn, rhaid i'r asesiad roi sylw i'w anghenion datblygiadol ac i ba raddau y mae'n briodol i'r plentyn ddarparu gofal. Os yw'r gofalwr yn oedolyn ifanc rhwng 16 a 25 oed, rhaid asesu unrhyw debygolrwydd y bydd yn pontio i addysg bellach, neu i swydd neu hyfforddiant, nawr neu yn y dyfodol, a rhoi sylw dyledus i'r hyn y mae'r gofalwr ifanc yn dymuno cymryd rhan ynddo.

27. Dylai'r asesiad feithrin gwell dealltwriaeth o sefyllfa rhywun, nodi'r dull mwyaf priodol o fynd i'r afael â'u hamgylchiadau penodol, a llunio cynllun ar gyfer sut byddant yn cyflawni eu canlyniadau personol. Dylai'r asesiad fod yn seiliedig ar egwyddorion cydgynhyrchu gan sicrhau ei fod yn cynnwys perthynas lle mae ymarferwyr ac unigolion yn rhannu'r pŵer i gynllunio a darparu cymorth gyda'i gilydd a chydabod bod gan bob partner gyfraniadau hanfodol i'w gwneud i helpu i gyflawni'r canlyniadau personol a nodwyd.

28. Bydd y broses asesu yn aml yn dechrau pan fydd person yn defnyddio'r gwasanaeth gwybodaeth, cyngor a chymorth. Fodd bynnag, nid dyma ddylai fod yr unig ffordd o gael asesiad. Nid oes angen cynnal asesiad cyn gallu rhoi gwybodaeth. Os rhoddwyd cyngor a/neu gymorth, bydd asesiad o anghenion person wedi'i gynnal.

29. Rhaid i ddull yr awdurdod lleol ar gyfer asesu a chymhwysedd gael ei gyfleu'n glir er mwyn i bawb allu deall sut mae cael asesiad, beth sy'n rhan o asesiad, sut bydd yn cael ei gynnal, pwy fydd yn cymryd rhan a beth mae'n ei olygu iddyn nhw. Bydd adegau pan fydd angen cymorth ychwanegol ar bobl, oherwydd eu hanghenion penodol, i sicrhau eu bod yn deall beth sydd ar gael iddynt a sut mae cael gafael ar gymorth.

30. Rhaid i bob ymarferydd sy'n cynnal asesiadau fod â'r sgiliau, yr hyfforddiant a'r cymwysterau priodol i gynnal asesiadau. Mae lefelau priodol o gymhwyster ar gyfer ymgymryd â'r gweithgareddau hyn yn cynnwys naill ai ymarferydd gwaith cymdeithasol cofrestredig neu ymarferydd gofal cymdeithasol sydd â chymhwyster proffesiynol ar lefel 5 neu uwch, neu berson sy'n meddu ar gymhwyster gofal cymdeithasol ar lefel 4 neu uwch, sy'n cynnwys gwybodaeth a sgiliau cynnal asesiadau sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, o dan oruchwyliaeth ymarferydd gofal cymdeithasol neu waith cymdeithasol cofrestredig. Bydd angen i awdurdod lleol hefyd fod yn fodlon bod gan yr holl staff sy'n ymgymryd â'r gweithgareddau hyn y sgiliau, yr wybodaeth a'r cymhwysedd i weithio gyda phlant a phobl ifanc, oedolion a gofalwyr, fel sy'n briodol.

31. Rhaid i'r broses asesu gydnabod y cysyniad o angen iaith. Dylai awdurdodau lleol fod â dull gweithredu rhagweithiol a dylid gofyn i'r unigolyn pa iaith yw eu dewis iaith ar ddechrau'r broses er mwyn sicrhau eu bod yn gallu derbyn gwasanaethau yn eu hiaith eu hunain drwy gydol y broses.

32. Rhaid i awdurdod lleol gofnodi canlyniad yr asesiad ac unrhyw gyngor neu arweiniad a roddir ar yr adnodd asesu a chymhwysedd. Rhaid i'r cofnod gynnwys esboniad o sut bydd y camau a argymhellir yn helpu i fodloni'r canlyniad a nodwyd neu fel arall ddiwallu'r anghenion a nodwyd yn yr asesiad. Mae hyn yn berthnasol i'r anghenion hynny sydd i'w diwallu drwy ddarparu gofal a chymorth a'r rhai a fodlonir drwy wasanaethau cymunedol neu ataliol, darparu gwybodaeth, cyngor a chymorth, neu drwy unrhyw ddull arall. Rhaid cynnig copi o'r asesiad hwn i'r person neu'r teulu y mae'r asesiad yn ymwneud ag ef, neu i'w gynrychiolydd.

33. Bydd asesiad yn dod i ben gydag un o'r canlynol:

- a) Does dim anghenion i'w diwallu
- b) Mae angen asesiad mwy cynhwysfawr, a allai gynnwys asesiadau mwy arbenigol
- c) Gellir diwallu anghenion drwy roi gwybodaeth, cyngor neu gymorth
- d) Gellir diwallu anghenion drwy ddarparu gwasanaethau ataliol
- e) Gellir diwallu anghenion, yn gyfan gwbl neu'n rhannol, gan yr unigolyn ei hun (gyda chymorth pobl eraill neu hebddynt)
- f) Gall materion eraill gyfrannu at gyflawni'r canlyniadau personol, neu ddiwallu'r anghenion fel arall
- g) Dim ond drwy gynllun gofal a chymorth, neu gynllun cymorth, y gellir diwallu anghenion.

34. Rhaid i'r awdurdod lleol alluogi'r person y mae ei anghenion wedi cael eu hasesu i gael dealltwriaeth glir o ganlyniad yr asesiad a beth fydd yn digwydd nesaf.

Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 - Rhan 4 o'r Cod Ymarfer (Diwallu Anghenion)

35. Mae Rhan 4 o'r Cod Ymarfer yn nodi'r meini prawf cymhwysedd a fydd yn berthnasol i bawb, gan gynnwys gofawyr. Roedd y fframwaith cymhwysedd yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdod lleol weithio mewn partneriaeth ag unigolion a'u teuluoedd a'u gofawyr i sicrhau bod gwasanaethau'n diwallu'r anghenion gofal a chymorth a nodwyd.

Rheoliadau Gofal a Chymorth (Asesu) (Cymru) 2015

36. Mae [Rheoliadau Gofal a Chymorth \(Asesu\) \(Cymru\) 2015](#) ("y Rheoliadau") yn nodi bod yn rhaid i'r awdurdod lleol sy'n gyfrifol am gynnal asesiad sicrhau bod unigolyn a enwir sydd â'r swyddogaeth o gydlynu'r gwaith o gynnal asesiadau.
37. Mae Adran 3 o'r Rheoliadau yn datgan bod yn rhaid i awdurdod lleol sicrhau bod gan unrhyw berson sy'n cynnal asesiad y sgiliau, yr wybodaeth a'r cymhwysedd i gynnal yr asesiad dan sylw a'i fod wedi cael hyfforddiant ar gyfer cynnal asesiadau. Wrth asesu, rhaid i awdurdod lleol ystyried a yw natur anghenion y person yn galw am gynnwys person sydd â sgiliau, gwybodaeth neu arbenigedd arbenigol.
38. Wrth gynnal asesiad, mae Adran 4 yn datgan bod yn rhaid i awdurdod lleol:
- a) Asesu a rhoi sylw i amgylchiadau'r person
 - b) Ystyried y canlyniadau personol
 - c) Asesu a rhoi sylw i unrhyw rwystrau rhag cyflawni'r canlyniadau hynny
 - d) Asesu a rhoi sylw i unrhyw risgiau i'r person neu i bersonau eraill os na chyflawnir y canlyniadau hynny, ac
 - e) Asesu a rhoi sylw i gryfderau a galluoedd y person.
39. Rhaid i'r awdurdod lleol wneud cofnod ysgrifenedig o ganlyniadau'r asesiad a'r materion y mae'r awdurdod wedi rhoi sylw iddynt wrth gynnal yr asesiad. Rhaid i'r asesiad ysgrifenedig gynnwys manylion unrhyw ddarpariaeth o wasanaethau ataliol, cyngor, gwybodaeth neu gymorth neu faterion eraill a allai gyfrannu at gyflawni'r canlyniadau personol, neu fel arall ddiwallu'r anghenion a nodir yn yr asesiad a sut gallai'r darpariaethau neu'r materion hynny gyfrannu at gyflawni'r canlyniadau personol neu fel arall ddiwallu'r anghenion a nodir yn yr asesiad.
40. Mae Adran 6 o'r Rheoliad yn datgan bod yn rhaid i'r awdurdod lleol gynnig rhoi copi o'r cofnod i'r person sy'n cael ei asesu, unrhyw berson sydd wedi'i awdurdodi i weithredu ar ran y person, unrhyw berson sydd â chyfrifoldeb rhiant dros blentyn sy'n cael ei asesu (oni bai y byddai gwneud hynny'n anghyson â llesiant y plentyn), lle nad oes gan yr unigolyn sy'n cael ei asesu alluedd i ofyn i berson weithredu ar ei ran ac nad oes unrhyw berson wedi'i awdurdodi i weithredu ar ei ran, unrhyw berson y mae'r awdurdod lleol o'r farn ei fod yn gweithredu er budd yr unigolyn.

41. Rhaid i awdurdod lleol adolygu asesiad os yw'n ymddangos iddo fod newid sylweddol wedi bod yn amgylchiadau'r person neu yn ei ganlyniadau personol. Caiff yr awdurdod lleol wrthod cydymffurfio â chais am ailasesiad os yw'n fodlon nad oes unrhyw newid sylweddol wedi bod yn amgylchiadau'r person neu yn ei ganlyniadau personol ers i'r asesiad gael ei gwblhau.

Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

42. Mae [Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol \(Cymru\) 2015](#) yn mynnu bod cyrff cyhoeddus yn ystyried llesiant hirdymor y boblogaeth ac yn gweithio'n gynaliadwy i atal problemau parhaus fel tlodi ac anghydraddoldebau ieuchyd. Mae'r Ddeddf Llesiant hefyd yn annog sefydliadau i gydweithio i atal problemau rhag digwydd neu waethygu. Sefydlodd hefyd 7 nod llesiant cenedlaethol gan gynnwys Cymru gydnherth, Cymru iachach a Chymru sy'n fwy cyfartal.

Deddf Hawliau Dynol 1998

43. Mae [Deddf Hawliau Dynol 1998](#) yn rhoi amddiffyniad cyfreithiol i hawliau dynol person. Gelwir yr hawliau yn 'hawliau Confensiwn', gan fod y Ddeddf yn rhoi'r hawliau dynol a nodir yn y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol ar waith. Mae cyfanswm o 18 o hawliau a chyfeirir at bob un fel erthygl ar wahân.

44. Mae Erthygl 3 yn ymwneud â gwahardd artaith. Ni ddylai neb gael ei arteithio na chael ei drin neu ei gosbi'n annynol nac yn ddiraddiol.

45. Erthygl 6 yn ymwneud â'r hawl i gael gwrandawriad teg. Mae gan bawb hawl i wrandawriad teg a chyhoeddus o fewn amser rhesymol gan dribiwnlys annibynnol a diduedd a sefydlwyd gan y gyfraith.

46. Mae Erthygl 8 yn ymwneud â'r hawl i gael parch mewn bywyd preifat a theuluol. Mae gan bawb yr hawl i gael parch o ran eu bywyd preifat a theuluol, eu cartref a'u gohebiaeth.

47. Mae Erthygl 14 yn ymwneud â gwahardd gwahaniaethu. Mae'n galluogi person i arfer ei hawliau dynol heb wahaniaethu ar unrhyw sail fel rhyw, hil, lliw, iaith, crefydd, barn

wleidyddol neu farn arall, tarddiad cenedlaethol neu gymdeithasol, cysylltiad â lleiafrif cenedlaethol, eiddo, genedigaeth neu statws arall.

Deddf Cydraddoldeb 2010

48. Mae [Deddf Cydraddoldeb 2010](#) yn gwarchod unigolyn sydd â nodweddion gwarchodedig rhag gwahaniaethu. Mae naw nodwedd warchodedig: oedran; anabledd; ailbennu rhywedd; priodas a phartneriaeth sifil; beichiogrwydd a mamolaeth; hil; crefydd neu gred; rhyw a chyfeiriadedd rhywiol.

49. Mae'r Ddeddf yn amlinellu'r gwahanol fathau o wahaniaethu, gan gynnwys:

- **Gwahaniaethu uniongyrchol** – mae person yn gwahaniaethu yn erbyn rhywun arall os yw, oherwydd nodwedd warchodedig, yn ei drin yn llai ffafriol nag y byddai'n trin pobl eraill.
- **Gwahaniaethu anuniongyrchol** – mae person yn gwahaniaethu yn erbyn rhywun arall os yw'n rhoi darpariaeth, maen prawf neu arfer ar waith sy'n gwahaniaethu ar sail nodwedd warchodedig berthnasol y person hwnnw.

Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus

50. Cyflwynodd y Ddeddf Cydraddoldeb Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus, sydd â 3 nod cyffredinol. O dan y ddyletswydd hon mae'n rhaid rhoi sylw dyledus i'r angen i wneud y canlynol:

- Dileu gwahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth ac ymddygiad arall sydd wedi'i wahardd gan y Ddeddf.
- Datblygu cyfle cyfartal rhwng pobl sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig a'r rheini nad ydynt yn eu rhannu.
- Meithrin perthnasoedd da rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig a'r rhai nad ydynt yn rhannu nodwedd warchodedig.

51. Nod Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus yw sicrhau bod y rheini sy'n ddarostyngedig iddi yn ystyried hyrwyddo cydraddoldeb wrth gyflawni eu busnes o ddydd i ddydd. Mae awdurdodau lleol yng Nghymru yn ddarostyngedig i'r Ddyletswydd hon.